

Eitem / Item	Dyddiad / Date	
37.4	4.12.23	
Teitl / Title	Er / For	
Diweddariad Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28: Diweddariad Fframwaith Cyflenwi ac Adborth o'r Gweithdai	<i>Trafodaeth/Penderfyniad/Gwybodaeth</i>	
Crynodeb o'r Materion / Summary of Issues		
<p>Yn y cyfarfod diwethaf ar 4 Medi 2023, gofynnwyd i'r aelodau ystyried cynnig y Cadeirydd o ran trefnu cyfres o weithdai wedi'u hwyluso yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd i drafod y tasgau sydd wedi'u cynnwys ym mhob un o amcanion ein Cynllun Llesiant. Cytunwyd ar hyn, a threfnwyd y pedwar gweithdy rhithwir fel a ganlyn :-</p>		
Amcan Cynllun Lles	Hwylusydd	Dyddiad
Amcan 1: Lles Economaidd	Russel Hughes-Pickering CLO Cyngor Sir Ceredigion	6 Tachwedd 2023 1400-1600
Amcan 2: Llesiant Cymdeithasol	Yr Athro Phil Kloer, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	16 Hydref 2023 1500-1700
Amcan 3: Lles Amgylcheddol	Gillian Perry, Cyfoeth Naturiol Cymru	23 Hydref 2023 1400-1600
Amcan 4: Lles Diwylliannol	Dr Rhodri Llwyd- Morgan, Prifysgol Aberystwyth	12 Hydref 2023 1000-1200
<p>Roedd pob sesiwn dwy awr yn canolbwyntio ar Amcan Llesiant unigol. Hystyriwyd thema drawsbynciol o fynd i'r afael â chaledi a thlodi ym mhob un o'r sesiynau.</p> <p>Nod y gweithdai oedd cynnwys aelodau mewn archwiliad manwl o bob un o'r tasgau sydd wedi'u o dan y pedwar prif amcan. Gan ddefnyddio meddalwedd rhyngweithiol, gofynnwyd i aelodau'r grŵp ystyried blaenoriaethu'r tasgau a nodi pa rai oedd eisoes yn cael eu cyflawni'n foddhaol, gyda systemau adrodd y gellid eu cyrchu. Yn ogystal, gofynnwyd am farn ynghylch sut y gellid atgyfnerthu rhai o'r meysydd nad oeddent yn cael eu cefnogi mor gryf, drwy waith y BGC neu drwy ddulliau eraill.</p> <p>Roedd y sesiynau'n gynhyrchiol iawn gyda bron i 8 awr o drafod rhyngweithiol. Yn ddiethriad, cyfrannodd pawb a fynychodd at y trafodaethau a'r awgrymiadau defnyddiol iawn a gafwyd o dan arweiniad yr hwyluswyr. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i'r broses hon.</p>		

Mae fîm cymorth y bartneriaeth bellach wedi treulio peth amser yn dadansoddi'r data a gasglwyd, ac fe fydd crynodeb o bob sesiwn yn cael ei cylchredeg ar wahân er eich gwybodaeth.

Rydym hefyd wedi paratoi crynodeb byr o'r gweithgareddau a ddilynwyd hyd yma o fewn pob grŵp cyflawni prosiect yn seiliedig ar le, ac wedi awgrymu ffrydiau gwaith ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar ein canfyddiadau.

O'r dystiolaeth a'r farn a gasglwyd, mae sawl sylw wedi'u cynnig i'w hystyried gan aelodau'r BGC, ac fe fydd Cynllun Cyflawni drafft diwygiedig hefyd yn cael ei rannu.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r prif awgrymiadau a chynigion a dynnwyd o allbwn y gweithdai. Dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r sylwadau a gofnodwyd yn erbyn y dasg yn unigol yn y crynodebau gweithdai.

Blaenoriaethau ar gyfer y BGC fesul Amcan Lles:

Amcan 1: Cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion.

1.5 Bydd sefydliadau BGC yn ymrwmo i feddylfryd gwaith teg, yn gosod gwaith teg wrth wraidd polisiâu a chynlluniau, yn esiamplau o waith teg yng Ngheredigion.

1.4 Trwy gaffael, bydd sefydliadau'r BGC yn gwneud y defnydd gorau o gyflenwyr lleol ar gyfer ei nwyddau, ei wasanaethau a'i waith.

1.6 Bydd BGC yn gwneud cysylltiadau clir â Bargen Twf MW a'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar draws ystod o feysydd ac yn datblygu ffyrdd newydd o fesur llwyddiant economaidd.

1.1 Byddwn yn cydweithio, gan gynnwys y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, gan gynyddu sgiliau trigolion Ceredigion i ddiwallu anghenion lleol.

Amcan 2: Atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.

2.3 Gweithio gyda, a chefnogi, cymunedau sydd eisiau rheoli a gwella eu hamgylchedd lleol. Grymuso pawb, gan gynnwys pobl ifanc, i wella mannau cymunedol a chael mynediad i fannau gwyrdd gan weithio mewn ffordd rhwng cenedlaethau i greu cyfleoedd gweithredu cymdeithasol a fydd yn arwain at effaith gymunedol wirioneddol i wella mannau cymunedol.

2.4 Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio cryfhau gwaith Rhaglen Ddigidol Tyfu Canolbarth Cymru i sicrhau dull cyd-gysylltiedig o wneud y gorau o'r cyfleoedd i wella'r seilwaith digidol a'r cysylltedd.

2.6 Bydd cyrff cyhoeddus trwy waith y BGC yn canolbwyntio ar ac yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni gweithgareddau ataliol sylfaenol ac eilaidd sy'n mynd i'r afael ag Iechyd a Llesiant.

Amcan 3: Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gyflwyno mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.

3.5 Gwneud y mwyaf o'r cyfle i uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd.

3.3 Ceisio diogelu a gwella iechyd a gwytnwch ein hecosystemau i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

3.7 Gweithio gyda darparwyr tai a rhanddeiliaid eraill i sicrhau tai o ansawdd da, ynni effeithlon a phriodol i bawb.

Amcan 4: Hyrwyddo Amrywiaeth Ddiwylliannol a Chynyddu Cyfleoedd i Ddefnyddio'r Iaith Gymraeg.

4.6 Gweithio mewn partneriaeth i ddangos ymrwymiad clir i gefnogi a gwreiddio nodau ac amcanion y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol : Ceredigion Wrth-hiliol.

4.1 Bydd y BGC yn cefnogi'r strategaeth ddiwylliannol a fydd yn cynnwys partneriaid ar draws y sir.

Nodwyd y tasgau uchod yn ystod y gweithdai fel y meysydd hynny dylid cael eu blaenoriaethu gan y BGC. Awgrymir y dylai Cadeiryddion y grwpiau seiliedig ar le gael mynediad at grynodedbau data'r gweithdai fel y bo'n briodol i gael dadansoddiad manylach o'r awgrymiadau cyflawni a fynegwyd yn y sesiynau.

Camau nesaf:

Os caiff y blaenoriaethau hyn eu mabwysiadu gan y Bwrdd, byddant yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Cyflawni.

Isod mae rhai arsylwadau cyflawni ehangach ac awgrymiadau ar gyfer symud ymlaen.

12. Gwelwyd yn nifer o feysydd bod **Cyfathrebu a Marchnata** gweithgaredd a llwyddiant yn wendid. Byddai ffocws ar hyn yn helpu'r cyhoedd i fod yn fwy ymwybodol o'r ystod eang o fentrau a'i chynhaliwyd sy'n cyfrannu at y Cynllun Llesiant. Byddai hefyd yn helpu partneriaid i weld pa amcanion y gweithredir arnynt yn y pen draw, gan ei gwneud yn haws nodi bylchau mewn gweithgaredd.

2. Roedd enghreifftiau da o'r dylanwad cadarnhaol pan oedd cynrychiolwyr

Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Ceredigion yn bresennol yng nghyfarfodydd yr is-grŵp cyflawni. Roedd hyn o gymorth gydag arweiniad proffesiynol tra bod materion a strategaethau'n cael eu hystyried ar gyfer cyflwyno. Roedd eu presenoldeb wedi lleihau'r oedi cyn gorfod cydgysylltu wedyn rhwng y grwpiau cyflawni / prosiectau a Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Ceredigion yn enwedig o ran cyngor ymgysylltu a marchnata. **Awgrymir bod cynrychiolwyr Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Ceredigion yn mynychu pob un o'r grwpiau cyflawni wrth symud ymlaen.**

3. Gyda'r arfer da a ddatblygwyd mewn meysydd eraill **byddwn yn awgrymu y dylem ystyried manteision pe bai cyfarfodydd bwrdd BGC chwarterol yn canolbwyntio ar Amcan WB penodol i hwyluso plymio'n ddwfn i faterion.**

Byddai hyn yn galluogi trafodaeth fwy cynhwysfawr ar bynciau, yn enwedig pe byddem wedyn yn defnyddio meddalwedd rhyngweithiol fel yr ymarferwyd yn y gweithdai i ganolbwyntio a datblygu ar fentrau.

4. O ran y strwythur cyflawni lefel uchel, awgrymir y **dylai'r bwrdd gadarnhau cadw'r tri grŵp cyflawni seiliedig ar le ar hyn o bryd** ac ystyried adolygiad blynyddol a gynhwysir yn adroddiad blynyddol y BGC.

5. Dylid ystyried **aillenwi grŵp cyflawni seiliedig ar le Aberystwyth yn Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur** er mwyn adlewyrchu'r themâu thematig a'r themâu amgylcheddol sirol yn well. Is-grwpiau Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi i'w nodi fel **Grŵp Cyflawni Llesiant Llanbedr Pont Steffan a Grŵp Cyflawni Llesiant Aberteifi** yn y drefn honno.

6. Dylid gofyn i'r bwrdd ystyried **nythu'n ffurfiol y prosiect Siarter Teithio WW o fewn Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur Ceredigion.**

7. Dylai pob is-grŵp **adolygu eu Cylch Gorchwyl a'u haelodaeth** o ran unrhyw un o'r argymhellion a fabwysiadwyd yn y Cynllun Cyflawni.

8. Dylai'r BGC ymdrechu i drosoli'r **defnydd o feddalwedd a thechnoleg ryngweithiol** ar draws cyfarfodydd a gweithdai.

9. Ymgynghori â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Ceredigion ynglŷn â **strategaeth lansio'r Cynllun Llesiant Lleol.**

10. Ystyried archwilio'r syniad o **BGC Ieuentid** – Mae'r gweithdai wedi awgrymu y byddai llais yr ieuentid yn elwa o gael ei gryfhau, trwy ddefnyddio'r system ysgolion a grwpiau ieuentid a thrwy fforymau sydd eisoes wedi'u sefydlu megis y Cyngor Ieuentid.

11. **Gwell cysylltiadau** rhwng Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion (ac o ganlyniad cydlyniant cymunedol) a BGC.

12. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fecanwaith cyflawni clir ar waith i gyflawni **nodau ac amcanion y Cynllun Gwrth-hiliaeth** – dylai'r BGC ystyried a all ychwanegu gwerth yma.

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

/

Argymhellion / Recommendations

I'r BGC drafod a chyfuno ar y tasgau a flaenoriaethwyd ar gyfer pob Amcan Llesiant, ynghyd â'r sylwadau a'r awgrymiadau cyflawni ychwanegol a nodir uchod.

Atodiadau / Attachments

Dogfennau ategol a gylchredwyd dros e-bost:

- 37.4 i.) **Fframwaith Llywodraethu a Chyflawni Drafft** ar gyfer Cynllun Llesiant Lleol BGC Ceredigion 2023-2028.
- 37.4 ii.) **Adroddiadau adborth** o bob un o weithdai'r Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028 a gynhaliwyd ym mis Hydref a Tachwedd.
- 37.4 iii.) **Adroddiadau byr** yn ymwneud â phob un o'r grwpiau prosiect seiliedig ar le presennol y BGC – Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan.

Swyddog Adrodd / Reporting Officer

Timothy Bray